# PWYLLGOR CRAFFU PARTNERIAETHAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy cyswllt fideo Dydd Iau, 16 Mai 2024 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield (Cadeirydd), Kelly Clewett, Pauline Edwards (Is-Gadeirydd), Bobby Feeley, Terry Mendies, Raj Metri, Arwel Roberts a/ac Elfed Williams

**Aelodau Cyfetholedig Addysg ar gyfer eitem fusnes rhif 6:** Colette Owen a Neil Roberts

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cynghorydd Gill German, Y Cynghorydd Jon Harland, Y Cynghorydd Merfyn Parry a/ac Y Cynghorydd Mark John Young

**Arsylwr:** Y Cynghorydd Jon Harland

Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes (GW), Pennaeth Addysg (GD), Pennaeth Cyllid ac Archwilio (ET), Rheolwr Datblygu, Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (PM), Prif Reolwr – Cymorth i Ysgolion (JC), Prif Swyddog Cynllunio (LG), Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch y Ffyrdd (MJ), Cydlynwyr Craffu (RhE a KE) a Gweinyddwr Pwyllgorau – Gweddarlledwr (RhT-J).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Jeanette Chamberlain-Jones, Brian Jones a David Williams.

Roedd y Pwyllgor yn anfon ei ddymuniadau gorau am adferiad llawn a chyflym i'r Cynghorydd Williams a oedd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn datgan cysylltiad personol yn eitem 6 fel Llywodraethwr Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yn Ysgol y Castell, Rhuddlan.

## 3 PENODI IS-GADEIRYDD

Gan nad oedd y Cadeirydd yn gallu mynychu'r cyfarfod yn bersonol yn Neuadd y Sir roedd wedi gofyn i'r Is-gadeirydd ar ôl ei ethol i gadeirio'r cyfarfod. Felly, roedd y Cydlynydd Craffu yn gofyn am enwebiadau ar gyfer swydd Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer blwyddyn 2024/25 y Cyngor.

Enwebwyd y Cynghorydd Pauline Edwards gan y Cynghorydd Bobby Feeley i gymryd rôl Is-gadeirydd y Pwyllgor. Cafodd enwebiad y Cynghorydd Edwards ar gyfer y rôl ei eilio gan y Cynghorydd Elfed Williams. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill, felly:

***Penderfynwyd*: Ethol y Cynghorydd Pauline Edwards yn Is-Gadeirydd Pwyllgor Craffu Partneriaethau ar gyfer blwyddyn 2024/25 y Cyngor.**

Ar ôl cael ei hethol, diolchodd y Cynghorydd Edwards i'r aelodau am eu cefnogaeth barhaus cyn cadeirio ar gyfer gweddill y cyfarfod yn unol â chais y Cadeirydd.

## 4 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni thynnwyd sylw'r Cadeirydd at unrhyw faterion brys cyn dechrau'r cyfarfod.

## 5 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Partneriaethau a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024. Felly:

***Penderfynwyd*: y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2024 fel cofnod gwir a chywir o'r gweithrediadau.**

Materion yn codi: tudalen 12, 'Prosiect Ysbyty Cymunedol Gogledd Sir Ddinbych' - hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor bod copi o lythyr y Cadeirydd mewn perthynas â'r prosiect hwn at Brif Weinidog newydd Cymru a benodwyd yn ddiweddar, ynghyd â llythyr ymateb y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor er gwybodaeth fel rhan o'r ddogfen 'Briff Gwybodaeth' yn gynharach yn yr wythnos. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ddiweddariad i'r Pwyllgor yn hysbysu'r aelodau bod yr achos busnes ar gyfer y prosiect wedi'i dderbyn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2024 ac yna wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC). Roedd y Cyfarwyddwr, mewn cydweithrediad â chynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd wedi parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar gynnydd yr achos busnes wrth i bethau ddatblygu.

## 6 ADOLYGU PENDERFYNIAD CABINET SY'N YMWNEUD Â CHYMUNEDAU DYSGU CYNALIADWY - RHAGLEN DREIGL

Cyn dechrau'r eitem fusnes hon roedd y Cadeirydd wedi croesawu'r Aelod Arweiniol ar gyfer Addysg, Plant a Theuluoedd; Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg; Pennaeth Addysg; Prif Reolwr: Cefnogi Ysgolion ynghyd â nifer o swyddogion eraill o amrywiol wasanaethau'r Cyngor i'r cyfarfod ar gyfer trafodaeth ar benderfyniad y Cabinet a alwyd i mewn ar gyfer adolygu o dan Reolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor. Roedd hefyd yn croesawu'r prif lofnodwr i'r 'Hysbysiad Galw i Mewn' a'i gyd-lofnodwyr i'r cyfarfod i gyflwyno eu hachos.

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad a'r atodiadau (dosbarthwyd ymlaen llaw) a oedd yn amlinellu penderfyniad y Cabinet a alwyd i mewn ar gyfer adolygiad, y rhesymau a roddwyd dros geisio adolygiad o'r penderfyniad a'r broses a fyddai'n cael ei dilyn yn y cyfarfod. Hefyd, dywedodd gan fod y penderfyniad a alwyd i mewn ar gyfer ei adolygu yn ymwneud â darpariaeth addysg statudol yn y sir, roedd yr Aelodau Cyfetholedig Addysg ar Bwyllgorau Craffu'r Cyngor yn bresennol ac roeddent yn aelodau o'r Pwyllgor gyda hawliau pleidleisio llawn ar gyfer yr eitem fusnes benodol hon.

Cyn dechrau'r drafodaeth, cafodd y Pwyllgor ei gynghori gan y Swyddog Monitro am bwysigrwydd canolbwyntio ar y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 23 Ebrill 2024, yn ymwneud â'r Rhaglen Amlinellol Strategol ddrafft ar gyfer Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu - Rhaglen Dreigl', oedd yn destun yr Hysbysiad Galw i Mewn ac nid ar unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y gorffennol na'r dyfodol o bosibl, a wneir mewn perthynas â rhaglen arfaethedig.

Cafodd y cais galw i mewn ei gyflwyno a'i grynhoi gan y Cynghorydd Mark Young, fel prif lofnodwr yr Hysbysiad Galw i Mewn ar ei ran ef a'i gydlofnodwyr, yn egluro bod y rheswm dros y penderfyniad galw i mewn yn seiliedig ar yr angen am lywodraethu da, gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth, ynghyd ag ymgynghori eang ac effeithiol gyda holl fudd-ddeiliaid mewn perthynas â 'gwaredu' cae chwarae gofod gwyrdd yn unol â Rheoliadau a Chanllawiau y cyfeiriwyd atynt yn yr 'Hysbysiad o Benderfyniad Galw i Mewn' a gyflwynwyd. Yn ystod ei gyflwyniad, roedd y Cynghorydd Young yn cyfeirio at yr angen i ymgynghori gyda chyrff fel Chwaraeon Cymru, ysgolion lleol yn Ninbych, aelodau etholedig lleol, cymuned leol a sefydliadau chwaraeon, nad oedd ef a'i gydlofnodwyr yn teimlo yr ymgynghorwyd yn eang arno mewn perthynas â 'gwaredu/newid defnydd' y cae chwarae er mwyn darparu ar gyfer yr adeilad newydd yn Ysgol Plas Brondyffryn. Roedd y llofnodwyr yn gadarn o'r farn o dan Gynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor, bod caeau chwaraeon wedi eu diogelu rhag datblygu oni bai eu bod wedi eu dynodi fel rhai nad oes eu hangen mwyach. Roedd y cyd-lofnodwyr, y Cynghorwyr Merfyn Parry, Pauline Edwards ac Elfed Williams yn amlinellu eu rhesymau dros gytuno i alw'r penderfyniad i mewn gan nodi y dylai asesiad gael ei gynnal ar argaeledd darpariaeth man gwyrdd yn Ninbych ac ar gael i aelodau a phreswylwyr lleol. Dylai darparu asesiad o holl risgiau hysbys cysylltiedig â'r cynigion ynghyd â thystiolaeth o'r ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd gyda holl rhanddeiliaid hefyd fod ar gael. Nid oedd y Cynghorydd Geraint Lloyd-Williams yn bresennol i gyflwyno ei resymau dros gytuno i fod yn llofnodwr i'r 'Hysbysiad Galw i Mewn'.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd wrth alw'r penderfyniad i mewn, dywedodd yr Aelod Arweiniol fod y Swyddog Monitro o'r farn y byddai'r materion fforddiadwyedd, colled ac adfer/disodli caeau chwarae yn faterion fyddai'n derbyn sylw fel rhan o ddatblygu'r achos busnes llawn ar gyfer y prosiect cyn cyflwyno i'r Grŵp Craffu Cyfalaf ar gyfer ystyriaeth. Byddai'r elfen caeau chwarae yn cael ei chynnwys fel rhan o broses y cais cynllunio. Nid oedd gan unrhyw un o'r ffactorau hyn unrhyw effaith ar benderfyniad y Cabinet ar 23 Ebrill 2024. Bod penderfyniad yn ymwneud â'r SOP oedd yn amlinellu rhaglen arfaethedig y Cyngor o brosiectau i gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC) gyda'r bwriad i wneud cais am fuddsoddi ar gael o dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu LlC (Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn flaenorol) i wella a datblygu cyfleusterau addysgol yn y sir dros y

blynyddoedd nesaf. Roedd y ‘Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu’ yn raglen fuddsoddi naw mlynedd ar gael i awdurdodau lleol ymgeisio am arian i wella a datblygu ystâd eu hysgolion.

Dywedodd y Swyddog Monitro fod yr ‘Hysbysiad Galw i Mewn’ yn cyfeirio at ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol oedd yn berthnasol yng Nghymru. Fodd bynnag, o dan y gyfraith, nid oedd yr un o’r rhain yn berthnasol i’r penderfyniad gafodd ei alw i mewn ar gyfer adolygiad, gan fod y term ‘gwaredu’ yn cael ei ddiffinio o fewn y gyfraith fel ‘caniatáu ystâd neu ddiddordeb mewn tir’ e.e. gwerthu. Roedd y ddogfen canllawiau statudol yn darparu amrywiol enghreifftiau o ble’r oedd y canllawiau yn berthnasol, y cyfan yn berthnasol i werthiant caeau chwarae. Nid oedd y penderfyniad wnaeth gael ei alw i mewn yn cynnwys unrhyw gynigion ar gyfer gwerthu unrhyw dir a oedd wedi cael ei glustnodi ar gyfer datblygu Ysgol Plas Brondyffryn, yr oedd y llofnodwyr i’r galw i mewn yn cadarnhau oedd y caeau chwarae y cyfeiriwyd atynt yn yr ‘Hysbysiad Galw i Mewn’. Roedd y tir hwn yn eiddo i’r Cyngor ar hyn o bryd a byddai’n parhau felly o dan y rhaglen arfaethedig o fuddsoddiad oedd wedi’i gynnwys yn y SOP.

Roedd yr Aelod Arweiniol yn cynghori’r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru wedi newid ei ddull ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ystadau ysgolion yng Nghymru yn y dyfodol o’r bandiau buddsoddi pum mlynedd o dan Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i raglen fuddsoddi naw mlynedd mwy hyblyg, wedi’i rannu’n dri bloc o dair blynedd yr un, o dan y Rhaglen Dreigl - Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.’ O ganlyniad i’r newid hwn mewn dull, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i awdurdodau lleol nodi prosiectau a oedd yn hanfodol yn barod i achosion busnes gael eu datblygu o fewn y dair blynedd nesaf, y rhai sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd ac yn debyg o fynd drwy ymgynghoriad statudol yn yr ail floc tair blynedd, ynghyd â phrosiectau sy’n debyg o fod ar y gweill yn ystod y bloc tair blynedd olaf, i’w cynnwys mewn SOP ar gyfer cyflwyno i Lywodraeth Cymru i wneud cais am arian o dan y Rhaglen. Roedd y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 23 Ebrill yn ymwneud â chyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gyllid o dan y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu ar gyfer datblygu’r prosiectau hyn ymhellach gyda’r bwriad i’w darparu maes o law. Byddai achosion busnes, caniatâd cynllunio ac ati yn dilyn maes o law. Wrth lunio’r SOP roedd y Cyngor wedi adolygu pob prosiect Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif, a ddatblygwyd a chytunwyd gan y gweinyddu blaenorol, a effeithiwyd gan amrywiol oedi ac argymhellwyd eu cynnwys yn y SOP ar gyfer y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Yn ogystal, roedd wedi cynnwys y prosiect ar gyfer Ysgol y Castell, Rhuddlan, gyda’r prosiectau Band B blaenorol ar gyfer darparu o dan y Rhaglen newydd. Rhoddodd yr Aelod Arweiniol orolwg o sefyllfa bresennol pob ysgol Band B mewn perthynas â’r camau dylunio a datblygu Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA). Roedd yna gyfeiriad yn adroddiad y Cabinet (Atodiad B i’r adroddiad i’r Pwyllgor) at brosiectau eraill fydd o bosibl angen buddsoddiad mewn blynyddoedd i ddod, yn amodol ar argaeledd cyllid.

Roedd Pennaeth Addysg y Cyngor yn croesawu rhaglen fuddsoddi £60miliwn arfaethedig ym mhortffolio ystadau ysgolion y sir gan Bennaeth Addysg y Cyngor, yn arbennig o ystyried bod gwasanaethau cyhoeddus yn gweithredu o fewn cyfnod ariannol llym ar hyn o bryd.

Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y llofnodwyr i'r galw i mewn, roedd y Pennaeth Addysg a'r Prif Reolwr - Cefnogi Ysgolion yn cadarnhau:

- Ymgynghorwyd â Chwaraeon Cymru ar y cynigion cyn, yn ystod ac yn dilyn y cam cyn-cynllunio ac roeddent yn parhau i ohebu gyda'r Cyngor ar y mater o'r safle newydd bwriedig ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn, fel y gwnaeth Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig a'r clybiau/sefydliadau trydydd parti oedd yn defnyddio'r tir a'r cyfleusterau ar hyn o bryd.
- roedd y budd-ddeiliaid hyn i gyd mewn trafodaeth ddwy ffordd barhaus gyda'r Cyngor o ran y cynigion.
- roedd y digwyddiadau ymgynghoriad cyn-cynllunio yn ystod Medi a Hydref 2022 wedi denu nifer uchel ac ystod amrywiol o ymgyngoreion, oedd yn cynnwys preswylwyr, grwpiau cymunedol ac ati gan gynnwys Clwb Pêl-droed Tref Dinbych a'r clwb rhedeg lleol, y ddau yn parhau i fod mewn trafodaeth gadarnhaol gyda'r Cyngor mewn cysylltiad â'u cyfleusterau yn y dyfodol, fyddai o ansawdd gwell na'r hyn a oedd ganddynt ar hyn o bryd. Roedd ail ymgynghoriad cyn-cynllunio yn cael ei drefnu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o hysbysu'r holl rhanddeiliaid am y newidiadau i'r cynlluniau o ganlyniad i'r ymgynghoriad cyn-cynllunio cychwynnol ac i roi cyfle i bawb gyflwyno sylwadau pellach ar y cynllun bwriedig. Byddai'r ail ymgynghoriad cyn-cynllunio hwn yn cael ei gynnal dros gyfnod o bedair wythnos.
- Roedd Grŵp Ardal yr Aelodau (MAG) lleol wedi bod yn rhan o drafodaethau ar y prosiectau hyn o leiaf dengwaith ers 2020.
- roedd y tîm oedd yn ymwneud â'r gwaith llunio, datblygu ac ymgynghori gyda rhanddeiliaid yn llawer mwy na'r Gwasanaeth Addysg yn unig. Roedd yn cynnwys swyddogion o'r Gwasanaeth Cynllunio, Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, Llwybrau Diogelach i'r Ysgol ac ati. Roedd dull 'Un Cyngor' wedi cael ei fabwysiadu er mwyn cynnig cefnogaeth i ddarparu'r prosiectau yn y SOP.
- roedd yn ofynnol i'r Cyngor wrth gynnig datblygu ysgol newydd neu aildrefnu ei ddarpariaeth addysg yn ofynnol i gynnal proses ymgynghoriad statudol, oedd yn cynnwys ymgysylltu gyda nifer fawr o ymgyngoreion statudol.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth y Pwyllgor fod y Cabinet ym mis Medi 2023, wrth gymeradwyo'r safle a ffefrir ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn, wedi nodi'n glir "bod yn rhaid i'r cais cynllunio ddangos yn glir y byddai colli man hamdden drwy ddatblygu cae chwarae ysgol yn cael ei ddisodli gan ddarpariaeth awyr agored amgen a fyddai'n cyfateb neu yn fwy buddiol i'r gymuned."

Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor ac aelodau heb fod yn rhan o'r Pwyllgor, roedd yr Aelod Arweiniol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a swyddogion o amrywiol Wasanaethau'r Cyngor wedi cynghori bod:

- yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 23 Ebrill 2024 yn amlinellu gweledigaeth strategol lefel uchel y Cyngor ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn ystâd ei ysgolion. Byddai'r manylion a risgiau ariannol a nodwyd ar gyfer pob prosiect unigol yn cael eu cynnwys yn yr achosion busnes a fyddai'n cael eu cyflwyno i'r CSG cyn cyflwyno i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth. Byddai pob un o'r achosion busnes hyn yn cael eu harchwilio gan y pwyllgor craffu yn ystod y cam cyn gwneud penderfyniad neu'n cael ei alw i mewn ar gyfer craffu yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet o dan Reolau Gweithdrefn Galw i Mewn y Cyngor.
- roedd y prosesau a ddilynwyd ar gyfer cyflwyno'r SOP ac achosion busnes unigol yn ddiweddarach ar gyfer y mathau hyn o brosiectau yn eithaf rhagnodol ac wedi eu nodi gan Lywodraeth Cymru. Felly, roedd yn ofynnol i'r Awdurdod gadw at y broses os oedd yn dymuno ymgeisio am arian y llywodraeth ar gyfer darparu'r prosiectau.
- er bod y cae athletau wedi'i ddiogelu rhag datblygu o dan y polisi CCC 11 o fewn y CDLl presennol, roedd y diogelwch ond yn ymestyn mor bell ag y gellir caniatáu datblygu drwy'r broses gynllunio os gallai'r Awdurdod ddangos y gallai ddarparu darpariaeth amgen ar gyfer dibenion hamdden/chwaraeon oedd o leiaf yr un mor dda neu o ansawdd gwell.
- er bod DLL wedi codi cwestiynau mewn perthynas â'r safle newydd bwriedig ar gyfer Ysgol Plas Brondyffryn nid oedd erioed wedi nodi ei fod yn gwrthwynebu'r cynigion. Roedd y tir ble byddai'r cyfleuster ysgol bwriedig yn cael ei adeiladu yn perthyn i'r Gwasanaeth Addysg. Roedd hwn ar wahân i'r tir oedd yn cael ei brydlesu ar hyn o bryd gan y Cyngor i DLL i'w ddefnyddio gan y ganolfan hamdden, parcio ac fel cyfleuster pob tywydd yn unig. Nid oedd y tir a glustnodwyd ar gyfer yr ysgol newydd os parheir yn ffurfio rhan o'r cytundeb prydles. Roedd y Cyngor a DLL yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i reoli a chynnal y safle.
- roedd manylion yr ymgynghoriadau cyn-cynllunio a'r asesiad anghenion a gynhaliwyd yn barod eisoes yn wybodaeth gyhoeddus a rhoddwyd sicrwydd y byddai manylion ymarferion ymgynghori yn y dyfodol hefyd yn cael eu rhannu gyda'r cyhoedd, gyda'r canlyniadau a'r sylwadau yn cael eu bwydo i'r broses cais cynllunio maes o law.
- nid oedd ystyriaethau cynllunio yn ffurfio unrhyw ran o benderfyniad y Cabinet a alwyd i mewn ar gyfer adolygu. Fodd bynnag, roedd cyngor

cyfreithiol arbenigol ar faterion cynllunio oedd yn ymwneud â'r safle cae chwarae eisoes wedi'i rannu gyda'r aelodau etholedig lleol.

- roedd swyddogion o'r Gwasanaethau Addysg a Chynllunio yn gweithio gyda'i gilydd ar hyn o bryd i ddatblygu cynigion man gwyrdd amgen ac mewn cydweithrediad gyda Chlwb Pêl-droed Tref Dinbych a'r Clwb Athletau roeddent yn ymdrechu i ddylunio darpariaeth amgen, o ansawdd gwell ar gyfer y dyfodol a fyddai hefyd yn gwneud y cyfleusterau ar gael ar gyfer defnydd y cyhoedd am gyfnodau hirach o amser nag yr oeddent ar hyn o bryd.
- ni ellir gwarantu y darperir dim un o'r prosiectau a restrwyd yn y SOP gant y cant gan eu bod angen mynd drwy amrywiol gamau o ddatblygu achos busnes cyn y gellir eu gwireddu. Fodd bynnag, roedd y SOP yn cynrychioli gweledigaeth y Cyngor, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma ar beth yr oedd eisiau ac yn dymuno ei weld yn cael ei ddarparu o fewn yr amserlen naw mlynedd, yn amodol ar y caniatâd gofynnol yn cael ei roi drwy'r prosesau gwneud penderfyniadau perthnasol.

Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn datgan cysylltiad personol fel llywodraethwr awdurdod addysg lleol (AALl) yn Ysgol y Castell, Rhuddlan ac roedd yn diolch i'r Aelod Arweiniol a'r swyddogion am gynnwys cynllun Ysgol y Castell o fewn y SOP. Yn ei farn ef, roedd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion wedi dangos eu bod wedi ac yn parhau i ymgynghori'n helaeth ar y cynigion oedd yn effeithio ar ardal Dinbych.

Roedd y Cynghorydd Kelly Clewett o'r farn nad oedd y dadleuon oedd wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cyfarfod yn berthnasol i'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar 23 Ebrill, gan fod nifer ohonynt yn ymwneud â'r penderfyniadau posibl yn y dyfodol, nid yr un oedd wedi'i alw i mewn ar gyfer craffu yn y cyfarfod presennol. Felly, roedd yn hyderus bod y penderfyniad a wnaed gan y Cabinet ar y SOP y penderfyniad cywir. Er hynny, roedd yn pwysleisio'r angen i'r Cyngor barhau i ymgynghori'n effeithiol gyda'r gymuned ehangach wrth i'r prosiectau ddatblygu.

Roedd y Cynghorydd Elfed Williams yn gofyn i gopïau o amserlen yr ymgynghoriad hyd yma a'r adroddiadau a luniwyd yn dilyn yr amrywiol ymgynghoriadau a gynhaliwyd eisoes gael eu dosbarthu i gynghorwyr sir.
Cyn cloi'r drafodaeth, rhoddwyd cyfle i'r ddwy ochr grynhoi eu safbwyntiau.

Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr, roedd y Cynghorydd Elfed Williams yn cynnig bod y Pwyllgor yn cyfeirio'r penderfyniad yn ôl i'r Cabinet gydag argymhelliad y dylai'r Cabinet wrth ailystyried ei benderfyniad fod yn fodlon bod y broses ymgynghori llawn wedi dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gael gwared â chae chwaraeon oedd wedi cael llawer o ddefnydd a hefyd gofyn i'r Cabinet ailasesu'r asesiad anghenion a lles ar fan gwyrdd/ardaloedd agored oedd ar gael yn Ninbych i sicrhau eu bod yn cyfateb disgwyliadau'r Cyngor ei hun fel y nodwyd yn ei Gynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Cafodd cynnig y Cynghorydd Williams ei eilio gan y Cynghorydd Bobby Feeley.

Ar ôl ei roi i bleidlais, roedd y cynnig yn aflwyddiannus ac felly:

***PENDERFYNWYD** cadarnhau penderfyniad y Cabinet ar 23 Ebrill 2024 yn ymwneud â 'Chymunedau Dysgu Cynaliadwy - Rhaglen Dreigl'.*

**EGWYL 11.50am tan 11.55am**

## 7 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Cyflwynodd y Cydlynydd Craffu yr adroddiad a'r atodiadau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i'r Aelodau adolygu rhaglen waith y Pwyllgor ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar faterion Craffu perthnasol.

Tynnwyd sylw'r aelodau at rhaglen waith y Pwyllgor ynghlwm yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Roedd yna dair eitem sylweddol hyd yma ar gyfer y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar 4 Gorffennaf. Ynghlwm yn Atodiad 2 oedd copi o 'ffurflen cynnig aelodau' ac anogwyd yr aelodau i'w llenwi os oeddent yn teimlo bod mater neu destun yn haeddu cael ei graffu. Atgoffwyd nhw y byddai'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu yn cyfarfod ar 20 Mai i ystyried unrhyw geisiadau craffu a dderbyniwyd. Roedd Atodiad 3 yn nodi rhaglen waith y Cabinet er gwybodaeth i'r aelodau a'u helpu i nodi unrhyw faterion yr oeddent yn dymuno iddynt gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar gyfer craffu cyn gwneud penderfyniad. Roedd Atodiad 4 yn crynhoi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas ag argymhellion y Pwyllgor yn ei gyfarfod blaenorol.

Roedd y Cynghorydd Elfed Williams yn awgrymu mae'n bosibl y byddai'r Pwyllgor Craffu yn dymuno archwilio'r ymgynghoriad a gynhaliwyd gyda'r ysgolion y cyfeiriwyd atynt o dan yr eitem fusnes flaenorol. Awgrymwyd fod y Cynghorydd Williams yn llenwi 'ffurflen cynnig aelod' (ynghlwm yn Atodiad 2) yn amlinellu'r agweddau yr oedd yn dymuno i'r Pwyllgor Craffu eu harchwilio yn fanwl, canlyniad rhagweledig y broses graffu ac yna cyflwyno'r ffurflen ar ôl ei llenwi i naill un o'r Cydlynwyr Craffu a fyddai'n cyflwyno'r cais i'r GCIGC ar gyfer ystyriaeth. Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts yn gofyn pa un a oedd yr elfen man gwyrdd o'r ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynigion yn ymwneud â'r eitem Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a drafodwyd ynghynt ar gael yn eang a pha un a oedd angen craffu ar yr elfen honno. Roedd y Cydlynydd Craffu yn cynghori'r Cynghorwyr Roberts a Williams i gysylltu â'i gilydd mewn perthynas â chyflwyno ffurflen cynnig aelod ar y testun penodol hwn.

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Roberts ar pa un a oedd nifer digonol o geisiadau craffu yn cael eu cyflwyno i'r GCIGC ar gyfer ystyriaeth i allu llenwi'r rhaglen waith craffu, roedd y Cydlynydd Craffu yn hysbysu bod wyth cais wedi cael eu derbyn ar gyfer ystyriaeth gan y Grŵp yn ei gyfarfod yr wythnos ddilynol. Yn ogystal, byddai'r GCIGC yn ystyried rôl Craffu yn y broses gosod y gyllideb a monitro darpariaeth y Cynllun a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, yn ogystal â chyfraniad y Pwyllgor Craffu yn Rhaglen Drawsnewid y Cyngor yn y dyfodol yn y cyfarfod hwnnw. Yn dibynnu ar ganlyniad y trafodaethau hynny bydd holl raglenni

gwaith pwyllgor craffu yn cael eu llunio yn fwy gwastad yn y dyfodol. Roedd trefniadau craffu arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru hefyd i gael eu trafod mewn cyfarfod i ddod o'r GCIGC. Er bod yna gynigion i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) ffurfio rhan o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y pen draw, ni chytunwyd ar ddyddiad eto ar gyfer hwn. Felly, nes byddai'r trefniadau hynny yn eu lle a chytuno ar drefniadau craffu unigol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig, byddai'r Pwyllgor Craffu Partneriaethau yn parhau i fod yn bwyllgor craffu dynodedig Sir Ddinbych ar gyfer craffu ar y BUEGC.

Ar ddiwedd y drafodaeth:

***Penderfynwyd*: cadarnhau rhaglen waith y Pwyllgor fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.**

## 8 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

**Uned Asesu Is-Ranbarthol ar Gyfer Plant Bwythyn y Ddôl:** Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley, cynrychiolydd y Pwyllgor Craffu ar y Bwrdd Prosiect ar gyfer yr uned arbenigol hon yn dweud bod y cyfleuster ar ei newydd wedd ar gyfer yr Uned Asesu hon ar fin cael ei gwblhau. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn cadarnhau unwaith y byddai'r cyfleuster yn barod i'w ddefnyddio, byddai lansiad swyddogol yn cael ei drefnu a byddai newyddlen yn cael ei dosbarthu i'r holl aelodau.

Felly:

***Penderfynwyd*: derbyn y wybodaeth a ddarparwyd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10pm